



Prosiect LIFE i Adfer y Fôr-wennol Wridog



Gwella'r rhagolygon
cadwraeth ar gyfer y
fôr-wennol wridog yn
ei hardaloedd yn y DU
ac yn Iwerddon

Gweithio gyda'n gilydd i roi cartref i fyd natur:



yn rhoi
cartref i
fyd natur



Pam mae 'gwennol y môr' angen gwarchodaeth arbennig?

Gyda'i phlu llwyd eithriadol olau, y rhubanau ar ei chynffon hir drawiadol a'r gwrid bychan ar ei brest, mae presenoldeb y fôr-wennol wridog ar ein harfordir ni'n arwydd o ddyfodiad yr haf. Yn dychwelyd o'u tiroedd gaeafu yng Ngorllewin Affrica, mae hedfan ysgafn yr adar arbennig yma'n pwysleisio pam ein bod yn eu hadnabod fel 'gwenoliaid y môr'.

Arferai'r môr-wenoliaid gwridog fod â dosbarthiad eang ym mhob gwlad ar Ynysoedd Prydain ond bu bron i *Sterna dougalli* ddiflannu'n llwyr yn yr 19eg Ganrif oherwydd bod eu plu'n cael eu gweld yn ffasiynol iawn ar gyfer hetiau i ferched.

Llwyddodd gwarchodaeth gyfreithiol i'w hachub ond, ers y 1960au, maen nhw wedi profi dirywiad hynod ddramatig yn eu poblogaeth – ymhlith y gwaethaf i adar môr yn nythu. Gwellodd pethau eto erbyn y 1990au, diolch i ymdrechion tymor hir cadwraethwyr. Mae'r pedair poblogaeth sy'n weddill yng Ngogledd Orllewin Ewrop yn adfer yn awr, gan gynnal mwy na 1,900 o barau.

Ond, yn anffodus, mae môr-wenoliaid gwridog yn dal i wynebu llawer o heriau.

Y rhain yw:

- **Erydu'r cynefin nythu** oherwydd bod lefel y môr yn codi a thywydd eithafol.
- **Prinder bwyd** oherwydd newidiadau sy'n cael eu hachosi gan yr hinsawdd yn amgylchedd y môr.
- **Pobl yn tarfu** ar eu poblogaethau nythu, gan gynnwys casglwyr wyau.
- **Ysglyfaethwyr** ar ffurf mamaliaid ac adar amrywiol, fel llwynogod, dyfrgwn, llygod mawr, gwylanod mawr, brain a hebogau tramor.
- Bygythiadau niferus wrth fudo ac ar diroedd gaeafu, gan gynnwys dirywiad eu safleoedd clwyd a **thrapiau anghyfreithlon**.

Er bod poblogaethau craidd y fôr-wennol wridog yn tyfu, rhaid i ni ddechrau meddwl am ddyfodol y rhywogaeth yn y tymor hir a ffyrdd o ehangu ei hamrediad.

Nod prosiect LIFE yw parhau i wella'r amodau magu i'r tair poblogaeth graidd yn Iwerddon a'r DU, gan baratoi'r cyn safleoedd magu ar gyfer ehangu yn y pen draw.

Prosiect LIFE – hwb ychwanegol i'r fôr-wennol wridog

Dros y blynyddoedd, mae cadwraeth weithredol ar boblogaethau o'r fôr-wennol wedi gwella ei rhagolygon yn sylweddol.

Mae Rockabill, safle sy'n cael ei reoli gan BirdWatch Ireland, a Lady's Island Lake, sy'n cael ei reoli gan y Gwasanaethau Parciau Cenedlaethol a Bywyd Gwyllt, wedi creu cynnydd ym mhoblogaeth Iwerddon, o 200 o barau yn 1989 i 1,812

Ffeithiau am y fôr-wennol wridog

Un nodwedd bwysig sy'n perthyn i'r fôr-wennol wridog yw bod ei phig i gyd yn ddu ym mis Mai ac wedyn fel rheol mae'n dechrau troi'n goch yn y gwaelod. Erbyn mis Awst, mae'n goch at ei hanner.

o barau yn 2017. Treialodd yr RSPB, sy'n rheoli unig boblogaeth y fôr-wennol wridog ar Ynys Coquet, ddulliau tebyg yn 2001, gan arwain at gynydd cyson o 34 o barau nythu i 111 o barau yn 2017. Er bod niferoedd y fôr-wennol wridog wedi bod yn cynyddu, mae'r sefyllfa dal yn ansicr, oherwydd nid yw'r tair poblogaeth fechan yn agos erbyn hyn at faint eu poblogaeth fagu hanesyddol na'u hamrediad yn flaenorol. Mae'n amlwg bod angen diogelu rhagolygon y fôr-wennol wridog ar gyfer y dyfodol.

Oeddech chi'n gwybod?

Mae'r bedwaredd brif boblogaeth yng Ngogledd Orllewin Ewrop yn Ffrainc. Mae Île aux Moutons yn ynys 3 hectar 8km o lannau deheuol Llydaw. Ar hyn o bryd mae'r safle'n gartref i'r brif boblogaeth o fôr-wenoliaid gwridog (43 o barau yn 2017), sy'n nythu yng nghanol môr-wenoliaid cyffredin (271) a môr-wenoliaid pigddu (2,552). Rydyn ni'n gweithio'n agos â Bretagne Vivante, sy'n rheoli'r boblogaeth, er mwyn gwella rhagolygon y boblogaeth hon hefyd.



I roi sylw i'r her hon, aeth yr RSPB ati i wahodd BirdWatch Ireland ac Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru i ffurfio partneriaeth ar gyfer menter gadwraeth fawr. Dyma sut daeth prosiect LIFE, sy'n cael ei gyllido gan yr UE, i fodolaeth yn 2015. Ar hyn o bryd mae'r prosiect hanner ffordd bron at ei gwblhau, a daw i ben yn 2020.

Pwrpas cyffredinol y prosiect yw gwella rhagolygon cadwraeth môr-wenoliaid gwridog y DU a Gweriniaeth Iwerddon. Dyma sut rydyn ni'n gwneud hyn:

- Rydyn ni'n parhau i wella'r amodau magu i dair poblogaeth: Rockabill, Lady's Island Lake (Iwerddon) ac Ynys Coquet (Northumberland yn Lloegr), felly rydyn ni'n gwybod eu bod nhw'n ddiogel yno.



- Rydyn ni'n gwella'r amodau magu ar gyfer môr-wenoliaid cyffredin, môr-wenoliaid y gogledd a môr-wenoliaid pigddu ar y safleoedd ble arferai môr-wenoliaid gwridog fagu, i'w paratoi ar gyfer ailsefydlu (Ynys Feurig, Bae Cemlyn, y Moelrhoniaid (Skerries) yng Nghymru, Ynysoedd Forth yn yr Alban, Gorllewin Solent yn Hampshire, Larne Lough yng Ngogledd Iwerddon ac Ynysoedd Dalkey yn Iwerddon). Nid yw môr-wenoliaid gwridog yn magu ar eu pen eu hunain byth, felly po fwyaf ydi'r poblogaethau cyfagos o rywogaethau o fôr-wenoliaid, y gorau.
- Rydyn ni'n cynnal ymchwil i'n helpu ni i ddeall sut i reoli'r fetablogaeth (maen nhw'n symud rhwng poblogaethau ond mae'n un 'teulu' mawr mewn gwirionedd); beth sy'n digwydd i'r rhywogaethau sy'n ysglyfaeth iddyn nhw (pysgod bach fel llymriaid a chorbenwaig); a sut mae'r môr-wenoliaid yn defnyddio'r moroedd o amgylch eu

Ffeithiau am fôr-wenoliaid gwridog

Mae môr-wenoliaid gwridog yn rhywogaeth gymharol 'addfwyn' ac, yn debyg i fôr-wenoliaid pigddu, dydyn nhw ddim yn mynd ati gyda grym i amddiffyn eu nythod rhag ysglyfaethwyr. I wneud hyn, maen nhw'n cael rhywogaethau ffyrnicach i'w gwarchod nhw, fel môr-wenoliaid cyffredin a môr-wenoliaid y gogledd. Dyma pam rydyn ni'n ceisio gwella'r poblogaethau o fôr-wenoliaid cyffredin yn amrediad blaenorol y môr-wenoliaid gwridog, yn y gobaith y bydd poblogaethau mawr a llwyddiannus o fôr-wenoliaid cyffredin yn hudo môr-wenoliaid gwridog i sefydlu yno unwaith eto.

safleoedd, i ddysgu pa mor bell maen nhw'n mynd am fwyd, fel ein bod yn gallu darparu gwarchodaeth ddigonol.

- Wedyn rydyn ni'n defnyddio canlyniadau'r astudiaethau hyn i ddatgan meysydd targed ar gyfer amrediad posib y fôr-wennol wridog yn y dyfodol. Mae'r môr-wenoliaid hyn angen gwarchodaeth rhag ysglyfaethwyr, sy'n golygu ei bod yn debygol y byddant yn setlo ymhlith y môr-wenoliaid cyffredin, sy'n ffyrnicach – yn eu poblogaethau mawr ac mewn llefydd gyda bwyd da.
- Yr hyn sy'n allweddol er mwyn sicrhau rhagolygon llwyddiannus i fôr-wenoliaid gwridog ar bob un o'r safleoedd yma ydi gwaith partneriaeth a rhwydweithio. Rydyn ni'n llunio strategaethau rhanbarthol, yn cyfnewid gwybodaeth ac yn rhannu arferion gorau: nid yn unig rhwng Iwerddon a'r DU ond hefyd gyda rheolwyr poblogaethau Ffrainc ac America.
- Yn y diwedd bydd y cydweithredu yma'n arwain at ddatblygu Cynllun Gweithredu Rhyngwladol ar gyfer y Fôr-wennol Wridog. Mewn rhai ffyrdd, bydd yn ddechrau ar bennod newydd.

- Beth am Affrica? Rydyn ni'n gweithio gyda'r Ganolfan ar gyfer Gwlybdroedd Affrica er mwyn asesu a yw problem y trapiau yn Ghana dal yn broblem fawr i fôr-wenoliaid. Am y tro cyntaf, rydyn ni hefyd wedi gosod dyfeisiadau tracio bychain (geoleolwyr) ar fôr-wenoliaid, i ddweud wrthynt ni pa lwybrau maen nhw'n eu dilyn a pha safleoedd sy'n bwysig i fôr-wenoliaid gwridog yn ystod y cyfnod mudo a gaeafu.

Rheoli safleoedd

Mae cyllid y prosiect wedi galluogi i wardeiniaid ddal ati i ddiogelu eu poblogaethau o'r fôr-wennol wridog. Maen nhw wedi creu terasau newydd a chynyddu nifer y blychau nythu, gan wneud mwy o le i'r adar nythu. Mae môr-wenoliaid gwridog, yn wahanol i unrhyw rywogaethau eraill o fôr-wenoliaid sy'n ffafrio ardaloedd agored ac eang, yn ffafrio nythu mewn cilfachau a thyllau bychain. O ganlyniad, maen nhw'n manteisio bob amser ar flychau nythu, gan eu bod yn rhoi gwarchodaeth ychwanegol i'w cywion rhag yr elfennau ac ysglyfaethwyr. Fel rheol mae môr-wenoliaid sy'n defnyddio blychau nythu'n cael gwell llwyddiant magu.



Hefyd mae cyllid ychwanegol wedi galluogi'r wardeiniaid i ddechrau ymweld â'r boblogaeth yn gynharach yn ystod y tymor, gan glirio llystyfiant mawr ac atal gwyllanod mwy rhag rheoli'r terasau. Mae gwyllanod yn gystadleuwyr brwd am ofod magu a hefyd maen nhw'n bwyta wyau a chywion môr-wenoliaid.

Mae wardeiniaid wedi bod yn defnyddio protocolau a dulliau amrywiol, gan gynnwys offer dychryn gwyllanod (uchelseinyddion sy'n rhyddhau cri gwyllanod cefnddu lleiaf), ac aflonyddwch uniongyrchol i atal gwyllanod mawr rhag mynd i safle'r môr-wenoliaid. Mae pob un cyw gan fôr-wennol wridog yn amhrisiadwy, ac felly mae hon yn swydd hanfodol.

Nid gwyllanod mawr ydi'r unig broblem i adar môr sy'n nythu ar ynysoedd. Mae bygythiad ymosodiad gan lygod mawr yn broblem fawr, un a welsom ni â'n llygaid ein hunain ar Ynys Coquet yn mis Ionawr 2017. Yn ffodus, roedden ni wedi prynu offer bioddiogelwch a pharatowyd cynlluniau ymateb brys, fel ein bod yn barod i ymateb yn gyflym iawn



i'r ymosodiad. Mae'r holl boblogaethau ar ynysoedd yn cael eu monitro am ymosodiad posib gan lygod mawr, oherwydd mae ychydig o'r anifeiliaid yma'n gallu dinistrio poblogaeth gyfan mewn cyfnod byr.

Mae gan lawer o'r poblogaethau ar y môr, fel Rockabill, Ynys Coquet a'r Moelrhoniaid, wardeiniaid preswyl sy'n byw ar yr ynys drwy gydol y tymor. Maen nhw'n defnyddio llety ceidwaid y goleudai gynt. Rydyn ni'n meddwl yn aml mai hon ydi'r swydd orau yn y byd... ond dydi eu tasg ddim yn un hawdd. Yn ystod y tymor, maen nhw'n brysur yn monitro. Ar wahân i'r cyfrif blynyddol, mae'n rhaid iddyn nhw hefyd amcangyfrif faint o gywion sydd wedi deor a beth fydd wedi effeithio ar lwyddiant y magu. Yn aml mae hyn yn cynnwys monitro'r pysgod mae'r rhieni'n eu bwydo i'r cywion ac amledd y bwydo. Yn fwy na hynny, rhaid modrwygo pob un o gywion y fôr-wennol wridog, er mwyn gwybod am eu symudiadau rhwng poblogaethau a'u goroesiad o un flwyddyn i un arall.

Yn drist iawn, un bygythiad sy'n dal i fodoli yw casglu wyau – ffenomenon Brydeinig sydd ddim yn digwydd yn unrhyw le arall yn y byd hyd y gwyddom ni. Drwy gefnogaeth ychwanegol gan brosiect LIFE, rydyn ni wedi prynu cuddfan sydd wedi'i hadeiladu i bwrpas ar gyfer Coquet, er mwyn gwylio dros nos yn ystod y cyfnod deor, gan leihau'r tebygolrwydd y bydd casglwyr wyau'n lladrata wyau.



Paratoi ar gyfer ehangu

Ail nod y Prosiect yw adfer pum safle sydd wedi bod yn gartref yn hanesyddol i fôr-wenoliaid gwridog sy'n magu. Gall gwella a rhoi hwb i oroesiad y poblogaethau o fôr-wenoliaid cyffredin olygu bod môr-wenoliaid gwridog yn fwy tueddol o ailsefydlu yn yr ardaloedd yma yn y dyfodol. Fel rhan o'r ymdrechion hyn, rydyn ni'n adfer y cynefinoedd sydd wedi dirywio i fôr-wenoliaid ac yn gweithio i leihau nifer yr ysglyfaethwyr ar y safleoedd hyn.

Yn 2017, treialwyd cyfuniad o ddulliau creu cynefinoedd gennym, i helpu i gryfhau'r poblogaethau o fôr-wenoliaid cyffredin yn Solent. Roedd hyn yn cynnwys adlenwi'r gro mân oedd wedi erydu (esgeiriau cors halen), tri bwnd nythu ar forglawdd Harbwr Lymington a rafftiau i fôr-wenoliaid. Bydd y nodweddion hyn yn darparu gofod nythu

arall diogel, oddi wrth unrhyw lifogydd, aflonyddwch gan bobl a mamaliaid ysglyfaethus.

Yn 2018, byddwn yn adfer ynysoedd y môr-wenoliaid ym Mae Cemlyn (Ynys Môn) a Larne Lough (Gogledd Iwerddon), dau safle sydd â phoblogaethau cenedlaethol bwysig o fôr-wenoliaid cyffredin a môr-wenoliaid pigddu. Ar hyn o bryd, nid oes modd defnyddio rhwng 10% a 30% o arwynebedd yr ynysoedd hyn, oherwydd erydiad a llifogydd o ganlyniad, sy'n creu pwysau ychwanegol am ofod nythu. Ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu, dylai'r ddwy ynys allu croesawu poblogaethau mwy o fôr-wenoliaid.

Hefyd, bydd llwyfan nythu i fôr-wenoliaid yn cael ei osod ym Mhorth Edgar (Ynysoedd Forth) i gefnogi datblygiad y boblogaeth leol o fôr-wenoliaid cyffredin.



Cadwraeth seiliedig ar dystiolaeth

Mae'r prosiect yn arwain sawl maes ymchwil, gan dargedu cwestiynau allweddol am gyloch bywyd y fôr-wennol wridog. Bydd canlyniadau'r astudiaethau hyn yn mireinio ein dull ni o weithredu wrth warchod a datblygu cynllun rheoli tymor hir ar gyfer y boblogaeth yng ngogledd orllewin Ewrop.

Astudiaeth o ddemograffeg

Ar wahân i gynhyrchiant (nifer y cywion sydd wedi hedfan o bob nyth weithredol), mae mewnfudo/allfudo, recriwtio adar iau a goroesiad gwahanol grwpiau oedran yn dylanwadu ar dwf y boblogaeth. Nod yr astudiaeth hon oedd gweld pa rai o'r paramedrau yma sy'n gyfrifol am dwf y boblogaeth ym mhob un o'r tair poblogaeth (Rockabill, Lady's Island Lake a Coquet). Seiliwyd y dadansoddiadau ar ddata am fodrwyo a gweld modrwyau eto yn ystod y cyfnod rhwng 1992 a 2015.

Mae'r canlyniadau'n awgrymu bod parhad poblogaeth y fôr-wennol wridog yn Coquet yn dibynnu ar fewnfudo o Rockabill. Mewn geiriau eraill, heb fewnfudo, byddai poblogaeth Coquet yn dirywio, er gwaetha'r gyfran gynyddol o adar wedi deor ar Coquet sy'n magu yno.

Ar y llaw arall, mae cynhyrchiant a goroesiad yr adar ifanc a'r oedolion yn fwy o sbardun i dwf poblogaeth Rockabill a Lady's Island Lake. Mae hyn yn awgrymu bod gofyn am strategaethau cadwraeth rhyngwladol cydweithredol a chynhwysfawr er mwyn rheoli metaboblogaeth Gorllewin Ewrop o fôr-wenoliaid gwridog, gan ganolbwyntio ar wella'r poblogaethau ffynhonnell nes bod effaith dibyniaeth dwysedd yn gorfodi'r adar i wasgaru'n naturiol.

Tracio môr-wenoliaid gyda GPS a chychod

Mae gan gadwraethwyr ddiddordeb yn amrediad a phatrwm ymddygiad chwilio am fwyd y poblogaethau magu, i ddiffinio parthau cadwraeth forol digonol o amgylch y poblogaethau.

Cyfyngedig fu'r cyfleoedd i osod tagiau GPS ar fôr-wenoliaid, yn bennaf oherwydd y cyfyngiadau technolegol o ran maint y dyfeisiadau GPS.

Yn 2016, boom yn treialu deg o dagiau GPS ynni solar wedi'u lawrlwytho o bell ar fôr-wenoliaid y gogledd ar y Moelrhoniaid, i weld ydi'r dull yn addas ar gyfer astudio môr-wenoliaid gwridog. Gwnaed hyn ar y cyd â thracio ar gwch ar yr un pryd, gan Econ Ecological Services Ltd, i gymharu'r

ddau dull o dracio môr-wenoliaid, ac i gael y data mwyaf cynhwysfawr am eu hymddygiad chwilio am fwyd.

Byddwn yn defnyddio ein profiad i ailadrodd yr astudiaeth uchod yn 2018, ar nifer o fôr-wenoliaid gwridog o Rockabill.

Deiet môr-wenoliaid

Mae môr-wenoliaid yn arbenigwyr ar chwilio am fwyd ar wyneb y dŵr, gan fwydo gan amlaf ar llymriaid a chorbenwaig. Mae argaeledd digon o fwyd yn bryder mawr, yn enwedig gan fod tymheredd arwyneb y môr yn codi, o ganlyniad i newid hinsawdd. Rydyn ni wedi casglu ac adolygu gwybodaeth am (a) ecoleg a newid hinsawdd/pwysau pysgodfeydd ar rywogaethau allweddol o ysglyfaeth (llymriaid, corbenwaig a phenwaig ifanc); (b) cyfansoddiad deiet y pum rhywogaeth o fôr-wenoliaid magu o amgylch Ynysoedd Prydain; ac (c) y gyfres ddata cyflenwi 25 mlynedd ar gyfer môr-wenoliaid y gogledd ar y Moelrhoniaid ac Ynys Feurig yng Nghymru.

Mae rhai casgliadau'n werth eu nodi:

- Mae'n bur debyg y bydd y stoc o llymriaid yn dirywio ymhellach, gan fod eu prif ffynhonnell o fwyd (y copepod *Calanus finmarchicus*) yn symud i chwilio am ddyfroedd oerach, tra bo llymriaid wedi'u clymu i'w cynefin.
- Er hynny, mae corbenwaig yn dibynnu ar rywogaeth arall o söoplancton sy'n gryfach i oroesi wrth i arwyneb y môr gynhesu, ac felly mae'n bur debyg y bydd yn gwneud yn well yn y dyfodol.
- Cafodd ardaloedd ble mae'r ddwy rywogaeth yn gorgyffwrdd eu datgan fel 'mannau ysglyfaeth allweddol'. Mae llefydd fel Shetland, gyda dim ond llymriaid ar gael, wedi gweld dirywriad difrifol eisoes ym mhoblogaethau'r môr-wenoliaid
- Yng ngoleuni'r uchod, ar hyn o bryd rydyn ni'n datblygu argymhellion polisi ar gyfer y Bil Pysgodfeydd, gan awgrymu tri opsiwn rheoli a phob un yn ceisio lleihau neu gau pysgodfeydd llymriaid.
- Datgelodd data deiet Ynys Môn bod cynnydd wedi bod mewn clwpeidau (corbenwaig a phenwaig) yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mewn deiet llawn llymriaid hyd yma.



Tiroedd gaeafu a mudo

Mae môr-wenoliaid gwridog yn treulio'r rhan fwyaf o'r flwyddyn y tu allan i'w tiroedd magu. Nid yw'n syndod felly eu bod yn wynebu llawer o heriau wrth fudo ac ar eu tiroedd gaeafu yng Ngorllewin Affrica.

Effeithiodd dirywiad y rhywogaeth yn y 1960au ar yr holl boblogaethau magu ar yr un pryd, ac un ddamcaniaeth oedd bod hyn oherwydd marwolaethau cynyddol ar eu tiroedd gaeafu. Awgrymodd ymchwiliadau gan yr RSPB ar ddechrau'r 1980au bod y dirywiad yn argaeledd sardîns, a phlant a physgotwyr yn dal môr-wenoliaid mewn trapiau yn Ghana, wedi cyfrannu at y dirywiad o bosib.

Er bod dal môr-wenoliaid mewn trapiau wedi'i wneud yn anghyfreithlon a bod cyfran uwch o blant yn yr ysgol erbyn hyn, roedd angen gwirio a oedd dal môr-wenoliaid mewn trapiau'n dal i

ddigwydd ac, os felly, ar ba raddfa. Aethom ati i gomisiynu'r Ganolfan ar gyfer Gwlybdiroedd Affrica i gynnal arolygon maes yn Ghana yn 2016 a 2017. Mae'r canlyniadau cyntaf yn awgrymu bod eu dal mewn trap yn dal i ddigwydd ar sawl safle, ond nid yw'n systematig ac mae ar raddfa lai na 30 o flynyddoedd yn ôl.

Rydyn ni'n gwybod erioed bod môr-wenoliaid gwridog yn mudo ar hyd arfordir Gorllewin Ewrop ac Affrica, cyn belled i lawr â Gwlff Guinea. Er hynny, maen nhw'n anodd eu canfod ar safleoedd clwydo yn Ghana o fis Rhagfyr ymlaen. I ddeall mwy am eu patrymau mudo a'r ardaloedd ble maen nhw'n treulio'r gaeaf, gosodwyd geoleolwyr bach (0.7g) ar 20 o fôr-wenoliaid gwridog o Rockabill. Mae'r dyfeisiadau hyn yn mesur hyd golau dydd, i amcangyfrif lleoliad yr aderyn. Rhaid cael y tagiau'n ôl i lawrlwytho'r data, a fydd ar gael tua diwedd 2018.



Rhwydweithio a strategaeth ryngwladol

Mae cyfenwid gwybodaeth a phrofiad rhwng rheolwyr safleoedd yn allweddol i ragolygon tymor hir y fetablogaeth o'r fôr-wennol wridog.

Rydyn ni'n paratoi cyfarwyddyd arfer gorau a chyfleoedd rhwydweithio niferus, gan gynnwys gweithdai. Er enghraifft, o ganlyniad i'n hymwelid â Ffrainc, ein cyngor i Bretagne Vivante oedd adeiladu terasau a gwella'r drefn fonitro yn Île aux Moutons – y brif boblogaeth o'r fôr-wennol wridog yn Llydaw.

Rydyn ni wedi ailddechrau cynhyrchu bwletin rhyngwladol y fôr-wennol wridog, sy'n cynnwys y safleoedd yn hemisffer y gogledd o UDA a Chanada, y Caribî, yr Azores a Gorllewin Ewrop. Mae asesiadau rheoli ar gyfer opsiynau tymor hir rhanbarthol yn datgan ardaloedd targed i'r fôr-wennol wridog ymsefydlu ynddyn nhw yn y dyfodol o bosib. Rydwn ni wedi datgan safleoedd penodol a bydd angen gwaith partneriaeth i rannu ein gwybodaeth a gwella amodau nythu. Rydwn ni wedi dechrau ar y dull yma o weithio eisoes yng Ngogledd Iwerddon, lle bydd swyddog y prosiect yn goruchwylio safleoedd y prosiect ac yn gweithio mewn partneriaeth â rheolwyr eraill ar boblogaethau yn yr ardal.



Gweithio gyda'r cyhoedd

Mae'n hawdd iawn tarfu ar fôr-wenoliaid gwridog, felly nid oes mynediad i ymwelwyr i unrhyw un o'r tair poblogaeth fagu. Er hynny, gall miloedd o bobl fwynhau campau'r môr-wenoliaid a'r palod ar Ynys Coquet drwy gyfrwng fideo ffrwd fyw oddi yno. Mae camerau'n cael eu gosod ar derasau'r môr-wenoliaid gwridog yno, a'r tu mewn i'r blychau nythu, fel bod y cyhoedd yn gallu gwyllo bywyd cyw y fôr-wennol wridog, o'r wyau i hedfan y nyth. I'r rhai sydd â diddordeb, cofiwch wyllo'r ffrwd fyw rhwng misoedd Mai ac Awst yn

rspb.org.uk/coquettive

Hefyd mae'r prosiect yn gweithio gyda Phrifysgol Napier yng Nghaeredin er mwyn creu profiad realiti rhithiol o gerdded o amgylch Ynys Coquet gan ddefnyddio offer pen oculus. Bydd pobl nid yn unig yn gallu sefyll yng nghanol poblogaeth o balod ond hefyd bydd posibil gweld llety'r wardeiniaid, y lanfa a'r boblogaeth o fôr-wenoliaid yn agos.

I gael gwybod mwy am sut mae poblogaethau'r fôr-wennol wridog yn ffynnu, a'r gwaith adfer parhaus, darllenwch y blog ar wefan ein prosiect:

roseatetern.org

neu dilynwch ni ar gyfryngau cymdeithasol

[@RoseateTernLIFE](https://twitter.com/RoseateTernLIFE)

Lluniau: môr-wennol wridog yn hedfan gyda clwpeid, môr-wennol wridog gyda llysywren y tywod, terasau Rockabill, môr-wenoliaid yn codi i'r awyr, cymysgedd o fôr-wenoliaid yn clwydo gan Brian Burke; cuddfan Ile aux Moutons, Coquet gan Chantal Macleod-Nolan; bwnd morglawdd Solent gan Daniel Piec; terasau Coquet gan Paul Morrison; map o safleoedd y prosiect, data tracio GPS gan yr RSPB; môr-wennol wridog wedi'i dal gan Chris Gomersall (rspb-images.com).

Cefnogir Prosiect LIFE i Adfer y Fôr-wennol Wriddog gan offeryn ariannol LIFE yr Undeb Ewropeaidd, mewn partneriaeth â'r RSPB, BirdWatch Ireland ac Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. 020-1295-17-18